**Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2024**
**Gwybodaeth, Rheolau ac Amodau y Maes Carafanau a Gwersylla**

Dylid darllen y ddogfen hon yn ofalus cyn cyflwyno eich cais

*Gwneud Cais*

1. *Dylid cwblhau pob ffurflen cais ar lein*
2. *Taliad - Rhaid amgáu'r taliad llawn gyda'r cais ar-lein.*
3. *Os hoffech safle wrth ymyl ffrind/grŵp- dewiswch enw cyffredin a'i nodi ar y ffurflen o dan 'enw cyswllt cais grŵp'. Rhaid sicrhau bod pawb sydd eisiau bod yn ymyl ei gilydd yn defnyddio'r un enw yn y darn hwn e.e. bydd angen i bawb yn y grŵp nodi 'Mr Urdd' yn y blwch. Nis oes sicrwydd bydd eich safle yn agos i'ch ffrind/grŵp os yw'r enw'n wahanol. .*
4. *Byddwch yn derbyn e-bost yn cydnabod derbyn eich cais a rhif cyfeirnod eich cais. Byddwch yn derbyn pecyn drwy e-bost, yn cynnwys eich rhif safle ar ddechrau mis Mai 2024.*
5. *3 noson yw'r isafswm o nosweithiau gellir archebu.*
6. *Rhaid cysylltu yn syth gyda Gethinpage@urdd.org os ydych am newid eich archeb. Ni fydd modd newid eich archeb wedi Mai 1af 2024, ac nid ad-dalir unrhyw gwahaniaeth mewn cost.*
7. *Os torrir un o'r Rheolau ac Amodau hyn gall yr Urdd ofyn i'r preswylwyr adael y safle yn ddirybudd ac ar unwaith. Os digwydd hyn nid ad-delir unrhyw dâl nac unrhyw ran ohono.*

**Gosod eich carafán/pabell**

8. Bydd y Maes Carafanau yn agored o **12.00 o'r gloch ar ddydd Gwener, 24 Mai 2024** ac ni chaniateir mynediad cyn hynny.
9. Rhaid ymadael â'r safle erbyn **12.00 o'r gloch** ar **ddydd Sul, 2 Mehefin 2024.**
10. Bydd y safle ar gael o hanner dydd ar ddiwrnod cyntaf eich arhosiad a bydd angen ymadael â'r safle erbyn hanner dydd ar eich diwrnod olaf.
11. Ni chaniateir gosod carafán na phabell cyn 9yb nac ar ôl 9 o'r gloch yr hwyr.

**Rheolau Iechyd a Diogelwch**

12. Rhaid i bob carafán gael diffoddwr tân 'powdwr sych', wedi'i gynnal a'i gadw'n bwrpasol ac yn cynnwys o leiaf 900 gram o bowdwr. Rhaid cael blanced fygu o ddefnydd sy'n gwrthsefyll tân wrth law, i'w defnyddio yn ardal goginio'r garafán.
13. Darperir cyfleusterau gwagio ar gyfer toiledau cemegol a dŵr budr ar y Maes Carafanau. Dylai'r dŵr budr sy'n cael ei wagio o'r garafán gael ei gadw mewn cynhwysyddion iechyd priodol a'i ddwyn oddi yno i'r mannau penodedig i'w daflu ymaith.
14. Disgwylir i bob carafanwr a gwersyllwyr gadw'r maes yn lân a thaclus a mynd â bagiau ysbwriel i'r mannau priodol ar y maes.
15. Ni chaniateir ymolchi wrth y tapiau dŵr- a rhaid golchi bwcedi elsan wrth y tapiau priodol. Dylid gofalu troi'r tapiau i ffwrdd cyn ymadael.

**Parcio a Cherbydau**

16. Caniateir un car yn unig i bob carafán ar y maes. Codir tâl o £20.00 am bob car ychwanegol.
17. Gellir parcio un cerbyd wrth ymyl bob carafán. Os oes gennych ail gerbyd, bydd rhaid ei barcio yn yr ardal ddynodedig wrth fynediad y Maes Carafanau a Gwersylla.
18. Ni chaniateir cerbydau yn yr ardal Gwersylla. Gofynnir i chi barcio eich cerbyd yn yr ardal ddynodedig a chludo eich eiddo a'ch pabell ar droed i'ch safle.

19. Ni chaniateir unrhyw un gysgu dros nos mewn car.
20. Darperir pass pwrpasol i'w harddangos ar y cerbydau sydd â chaniatâd i fod ar y Maes. Rhaid arddangos y pass yn glir yn ffenestr flaen y car. Ni roddir caniatâd i gar fynd ar y Maes Carafanau heb y pass pwrpasol.
21. Dylid parcio'r garafán dan gyfarwyddid stiward. Mi fydd peg yn nodi rhif y safle.
22. Cyfyngir cyflymdra'r cerbydau i 5 milltir yr awr.
23. Caniateir mynediad i foduron a charafanau ar yr amod na fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i:
    - Unrhyw garafán, pabell, cerbyd neu eiddo.
    - Unrhyw beth ar neu oddi mewn neu o gwmpas cerbyd, pabell neu garafán, sut bynnag yr achosir hynny.
    - Unrhyw niwed i berson.

**<u>Rheolau Cyffredinol</u>**

24. **Ni chaniateir cŵn, heblaw am gŵn tywys a chŵn cymorth, ar y Maes Carafanau a Gwersylla.**
25. Caniateir cerbydau pwrpasol (Motor homes a Campervans) ar y Maes Carafanau ond lleolir Pebyll Trelar (Trailer Tents) yn yr ardal gwersylla benodedig.
26. Ni chaniateir unrhyw sŵn ar ôl 11.00 o'r gloch y nos.
27. Rhaid parchu rheolau cefn gwlad a chadw at lwybrau pwrpasol. Dylid gofalu cau pob gât ar eich ôl.
28. Rhieni/Gofalwyr sy'n gyfrifol am arolygu ymddygiad a diogelwch unrhyw blant sydd o dan 18 oed.
29. Cyfyngir y cyflenwad trydan i 10amp, ac os byddwch yn gorlwytho'r cyflenwad, torrir y cysylltiad yn awtomatig. Gellir ailosod y swîts, ond os byddwch yn gorlwytho yn ormodol, datgysylltir y cyflenwad yn gyfan gwbl. Yn yr achos hwnnw ni roddir ad-daliad.
30. Oherwydd gwifrau trydan uwchben, ni chaniateir hedfan barcud na baneri uchel ar y Maes Carafanau a Gwersylla.
31. Ni chaniateir Lluserni Tsieineaidd (Chinese Lanterns)

**<u>Tanau a Barbeciws ar y Maes Carafanau</u>**

32. Ni chaniateir cynnau tanau agored.
33. Caniateir i chi gynnau a defnyddio offer barbeciw (nwy neu golosg) ar yr amod eich bod yn dilyn y canllawiau diogelwch isod:
    - Dylid darllen a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr yn fanwl cyn cynnau'r barbeciw, a dim ond tanwydd pwrpasol dylid ei ddefnyddio. Ni ddylid defnyddio petrol o dan unrhyw amgylchiadau.
    - Dylid cadw unrhyw bethau allai losgi a lledu tân yn ddigon pell o ardal y barbeciw.
    - Cadwch lygad ar y barbeciw ar bob achlysur, yn enwedig os oes plant o gwmpas.
    - Wrth ddefnyddio barbeciw nwy, sicrhewch fod y pibelli mewn cyflwr da, a bod y cysylltiad i'r botel nwy a'r offer coginio yn ddiogel. Ni ddylid gosod potel nwy yn agos i wres.
    - Dylid cadw diffoddwr tân a blanced dân wrth law, rhag ofn i'r barbeciw fynd allan o reolaeth.
    - Dylid gadael i'r barbeciw oeri cyn gwaredu'r lludw a'r golosg. Darperir safle gwastraff pwrpasol ar gyfer lludw, golosg a barbeciws 'tafladwy' ar y Maes Carafanau a Gwersylla.
    - Peidiwch byth â defnyddio barbeciw os ydych o dan ddylanwad alcohol.
    - Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, symud barbeciw mewn i adlen 'i gadw pobl yn gynnes'.